# Meini Prawf Ariannu:

## Cronfeydd Sir y Fflint

Mae gan ardal Sir y Fflint ddwy gronfa, Cronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint a Chronfa Ddeddf yr Eglwys yng Nghymru Sir y Fflint.

Mae Cronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint yn cefnogi

- Prosiectau sy'n darparu datblygiad addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc o oedran ysgol
- Prosiectau sy'n darparu datblygiad addysgol i blant yn y blynyddoedd cynnar
- Prosiectau mewn ysgolion sy'n annog byw yn iach
- Prosiectau cyrhaeddiad addysgol gan gynnwys dysgu gydol
- Prosiectau cynhwysedd addysg ar gyfer myfyrwyr unigol ar ffurf bwrsarïau, cymorth i deithio, Gwobrau ar gyfer cyrhaeddiad a deunydd addysgol neu adnoddau

Cronfa Ymddiriedolaeth Elusennol yw Cronfa Ddeddf yr Eglwys yng Nghymru Sir y Fflint sy'n cael ei gweinyddu gan Sefydliad Cymunedol Cymru. Mae'r Gronfa Ymddiriedolaeth yn cael ei rheoli gan Ddeddf yr Eglwys yng Nghymru 1914.

Mae'r gronfa'n cefnogi:

- Prosiectau sy'n cyfrannu at adnewyddu a chynnal a chadw eglwysi, capeli a neuaddau pentref yn y sir.
- Prosiectau sy'n gweithio i ymladd anfantais er budd trigolion Sir y Fflint.
- Prosiect sy'n darparu gweithgareddau cymdeithasol a hamdden ar gyfer trigolion Sir y Fflint.

### Pwy a all ymgeisio?

- Gall eglwysi a sefydliadau nid er elw sy'n gweithio gyda thrigolion ardal Awdurdod Lleol Sir y Flint ymgeisio am grantiau o hyd at £1000.
- Unigolion hyd at a chan gynnwys 25 oed sy'n byw yn ardal Awdurdod Lleol Sir y Fflint ar hyn o bryd, cyn belled nad yw'r mentrau yn dod o dan ddarpariaeth statudol.

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr nad ydyn nhw wedi derbyn cefnogaeth gan y Gronfa hon o'r blaen ac sy'n dangos orau sut y maen nhw'n gallu cyrraedd amcanion a blaenoriaethau'r Gronfa.

### Sut i ymgeisio?

Mae'n rhaid i bob grŵp lenwi ffurflen gais ar lein y gellir ei chael drwy ein gwefan. Os ydych yn ymgeisio fel unigolyn, dylech lawrlwytho fersiwn dogfen Word o'r ffurflen gais o'n gwefan a'i llenwi.

Nodwch, os gwelwch yn dda:

- Ni roddir grantiau'n ôl weithredol h.y. ar gyfer costau sydd wedi codi cyn derbyn y llythyr yn cynnig grant a chyn llofnodi'r telerau a'r amodau.
- Ni fydd prosiectau sy'n dod o dan gyfrifoldeb y sector statudol, e.e. unrhyw beth sydd ar gwricwlwm ysgol, yn cael eu cefnogi
- Rhaid i ymgeiswyr (yn enwedig ymgeiswyr unigol) allu dangos yr angen ariannol a chymdeithasol y bydd y grant yn eu diwallu
- Ni roddir grantiau os oes cymorth ariannol arall ar gael e.e. ffioedd dysgu os yw'r ymgeisydd yn gymwys am fenthyciad myfyriwr.